Prifysgolion Cymru Universities Wales

# Esboniad: Cyfranogiad Cymru mewn addysg uwch

Awst 2024

## Beth yw cyfranogiad, cyfradd cyfranogiad a chyfradd ymgeisio?

Wrth gyfeirio at ***gyfranogiad*** mewn addysg uwch, rydym yn golygu unrhyw un sydd wedi sicrhau lle mewn prifysgol.

Y ***gyfradd cyfranogiad*** yw cyfran y bobl ifanc 18 oed sy'n mynd i'r brifysgol. Gall maint y boblogaeth amrywio o flwyddyn i flwyddyn, a dyna pam mae'r gyfradd cyfranogiad yn ddangosydd mwy defnyddiol o dueddiadau dros amser, yn hytrach na nifer y bobl sy'n mynd i'r brifysgol.

Y ***gyfradd ymgeisio*** yw cyfran y bobl ifanc 18 oed sy'n gwneud cais i brifysgol. Nid yw pawb sy'n gwneud cais o reidrwydd yn cyrraedd y brifysgol yn y pen draw.

## Beth mae'r ystadegau yn ei ddweud wrthym?

Mae dwy duedd allweddol yn peri pryder.


Mae'r gyfradd cyfranogiad yng Nghymru wedi bod yn gostwng, ac mae'n is nag mewn mannau eraill yn y DU. Mae hynny'n golygu bod pobl ifanc 18 oed yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn fwy tebygol o fynd i'r brifysgol na'u cyfoedion yng Nghymru.

Mae'r data UCAS diweddaraf sydd ar gael yn dangos gostyngiad parhaus yng nghyfran y disgyblion 18 oed o Gymru sy'n gwneud cais i brifysgol.

Mae'r gyfradd ymgeisio nawr yn **33.8%, y gyfradd isaf yn y DU.**


| Domicile | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ⊟ UK | 36.0% | 37.0% | 37.5% | 37.8% | 38.9% | 40.5% | 43.3% | 44.1% | 42.1% | 41.9% |
| ⊞ England | 36.1% | 37.2% | 37.9% | 38.1% | 39.5% | 41.3% | 43.9% | 44.9% | 43.0% | 42.7% |
| ⊞ Northern Ireland | 48.2% | 48.2% | 47.7% | 47.6% | 46.9% | 48.2% | 52.3% | 52.8% | 51.1% | 50.1% |
| ⊞ Scotland | 32.5% | 32.8% | 33.0% | 32.8% | 32.7% | 32.3% | 36.1% | 35.8% | 33.9% | 33.9% |
| ⊞ Wales | 31.7% | 32.9% | 32.5% | 32.7% | 32.9% | 33.6% | 37.9% | 38.1% | 34.2% | 33.8% |
| Total | 36.0% | 37.0% | 37.5% | 37.8% | 38.9% | 40.5% | 43.3% | 44.1% | 42.1% | 41.9% |

Mae'r bwlch rhwng y gyfradd yng Nghymru a gweddill y DU wedi bod yn cynyddu dros amser, ac mae bellach y **mwyaf ers 15 mlynedd.**





*Ffigur 1: Bwlch yn y gyfradd ymgeisio rhwng Cymru a'r DU gyfan, data UCAS 30 Mehefin*

Os byddwn yn dadansoddi fesul rhanbarthau yn Lloegr, dim ond Gogledd-ddwyrain Lloegr (33.4%) sydd â chyfradd cyfranogiad is na Chymru (33.8%).




*Ffigur 2: Cyfradd ymgeisio ar gyfer y flwyddyn academaidd 2024-25, yn ôl gwlad a rhanbarthau Lloegr. Data UCAS 30 Mehefin.*

Ymhellach, mae Cymru hefyd wedi gweld **gostyngiad yn y gyfradd ymgeisio o gwintel 1 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru** (h.y. y mwyaf difreintiedig), tra bod Lloegr a'r Alban wedi gweld cynnydd yn y gyfradd ymgeisio yn y garfan gyfatebol.




*Ffigur 3: Cyfran y rhai yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig (Cwintel 1) a wnaeth gais i brifysgol. Data UCAS 30 Mehefin.*

## Pam fod hyn yn broblem?

Mae'r duedd hon yn peri pryder am sawl rheswm.

Y pecyn cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru (h.y. y rhai sy'n byw yng Nghymru pan fyddant yn gwneud cais i brifysgol, yn hytrach na'r rhai sy'n astudio yng Nghymru, a allai ddod o weddill y DU neu fod yn fyfyrwyr rhyngwladol), yw'r mwyaf hael o holl wledydd y DU, gyda ffocws penodol ar gymorth ar gyfer costau byw.

Felly, er gwaethaf argaeledd grantiau a benthyciadau sydd wedi'u cynllunio i hwyluso mynediad i addysg uwch, nid yw pobl ifanc Cymru yn manteisio ar y cyfle i wneud hynny ar yr un gyfradd â'u cyfoedion mewn mannau eraill yn y DU.

Mae dyfodol yr economi yn dibynnu ar y Gymru'n meddu ar adnoddau digonol i fanteisio ar ddatblygiadau diwydiannol, digidol a chymdeithasol, gyda galw cynyddol am sgiliau lefel graddedigion. Os nad yw pobl Cymru'n ennill y sgiliau hyn, bydd economi Cymru o dan anfantais economaidd o gymharu â gweddill y DU, lle bydd cyfran y graddedigion yn y gweithlu yn uwch. Mae gan Gymru eisoes gyfran is o raddedigion yn y gweithlu na rhannau eraill o'r DU.

Ond yn hollbwysig, rhaid i ni gofio'r effaith y byddai hyn yn ei chael ar unigolion, a'r cyfleoedd y byddant yn colli allan arnynt. Mae yna berygl gwirioneddol o genhedlaeth sy'n llai cymwysedig na'u rhagflaenwyr.

## Pam fod hyn yn digwydd?

Gallai fod amrywiaeth o ffactorau ar waith, gan gynnwys yr angen i godi uchelgais neu ddiffyg ymwybyddiaeth o'r cyrsiau sydd ar gael a'r cymorth ariannol y gellir ei gyrchu.

Mae hefyd yn bwysig cofio nad dim ond yn 18 oed y mae pobl ifanc yn optio allan o addysg. Mae ffigurau Llywodraeth Cymru'n dangos nad yw cyfran gynyddol o bobl ifanc 16 oed yn symud ymlaen o Flwyddyn 11 i addysg, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith.

Yn 2017, roedd 90% o'r rhai oedd yn ymadael â'r ysgol yn aros mewn addysg, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith. Mae'r ffigwr wedi gostwng i 80% yn 2022.

## Beth ellir ei wneud i fynd i'r afael â'r broblem?

Hoffai Prifysgolion Cymru weld Medr, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, a Llywodraeth Cymru, yn ymrwymo i roi sylw i'r mater hwn yn uniongyrchol, yn gyntaf trwy fynd i'r afael â'r angen am well data i ddeall i ble mae ein pobl ifanc yn mynd ar ôl ysgol; hefyd gwaith pellach i ddeall beth sydd wrth wraidd y dewisiadau y mae pobl ifanc yn eu gwneud.

## Ydy'r Cymry'n mynd i brifysgol yn rhywle arall?

Mae'r ffigurau hyn yn ymwneud â phobl sydd fel arfer yn byw yng Nghymru, i ble bynnag y maent yn gwneud cais, nid dim ond y rhai sy'n gwneud cais i brifysgolion yng Nghymru.

Mae prifysgolion Cymru'n denu myfyrwyr o Gymru, gweddill y DU, a myfyrwyr rhyngwladol. Ond er lles gwydnwch economi Cymru yn y dyfodol, byddai'n fuddiol cael mwy o fyfyrwyr o Gymru'n mynd i addysg uwch.

## A yw pobl ifanc Cymru'n gwneud prentisiaethau yn lle hynny?

Nid yw'r gostyngiad mewn ceisiadau i brifysgol yn cael ei esbonio trwy bobl ifanc yn cyrchu moddau neu fathau eraill o ddarpariaeth.

Gan edrych y tu hwnt i'r ansefydlogrwydd o ran nifer y rhai a ddechreuodd ar brentisiaethau yn sgil y pandemig, mae niferoedd prentisiaethau 18 ac 19 oed wedi bod yn gyson ar y cyfan dros gyfnod o bum mlynedd. Yn 2018-19, roedd yna 6,065 o brentisiaid 18 ac 19 oed yng Nghymru. Yn 2022-23, roedd yna 5,605. Mae cyfran gyffredinol y boblogaeth 18-19 oed sy'n dechrau dysgu seiliedig ar waith wedi gostwng ychydig dros y cyfnod hwn.